Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**



# Tedi Bach

Cefnogi teuluodd: Meithrin cydberthna y tu hwnt i ofal plant

## Cefndir

Mae lleoliad gofal plant Tedi Bach wedi ailddehongli sut beth y dylai cymorth i teulu yn y blynyddoedd cynnar. Fel rhan o CIPA, sef Cysylltu Ieuenctid a Plant ac Oedolion, mae’n cefnogi’r teulu cyfan, nid dim ond y plentyn. Mae ei gynwysoldeb yn cydnabod bod plant yn ffynnu pan fydd teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu croesawi a’u cefnogi.

## Beth mae’n ei wneud yn wahanol?

Mae Tedi Bach yn deall bod cefnogi plant yn golygu cefnogi eu teulu cyfan. Mae ei dull gweithredu yn canolbwyntio ar feithrin cydberthnasau o’r rhyngweithiad cyntaf, gan gynnwys:

- mae gweitho o fewn CYCA yn galluogi Tedi Bach i gynnig cymorth arbennigol am ddim, gan gynnwys banciau bwyd, cyrsiau a chwnsela
- mae’n cynnal diwrnodau i’r teulu gydag awdurdodau lleol, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau tan a gweithwyr iechyd
- mae’n defnyddio sesiynau i’r teulu i helpu i bontio plant a theuluoedd newydd yn raddol
- mae’n cynnig cyfeloedd i rieni feithrin sgiliau newydd a hyder, yn enwedig teuluoedd rhyngwladol

Mae’r dull gweithredu hwn sy’n canolbwyntio ar y teulu yn creu cymuned lle mae pawb yn cael budd o gysylltiadau cryfach ac adnoddau a rennir.

## Effaith ...

- Cynwysoldeb gwell i rieni, ynghyd â sgiliau newydd a llesiant gwell
- Cysylltiad cryfach â'r gymuned drwy waith partneriaeth
- Proses bontio fwy hwylus i blant sy'n dechrau yn y lleoliad
- Mae rhieni yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ynfwy yn addysg
- Cydberthnasau gwell rhwng staff a theulueoedd
- Cyfleoedd newid bywyd, fel y y dangoswyd gan fam o Saudi Arabia a gamodd ymlaen o gymryd rhan mewn cwrs i fod yn  un o wirfoddolwyr gwerthfawr CYCA

> *Gallaf oresgyn rhwystrau, hyd yn oed y rhai rwyf yn eu creu yn fy meddwl fy hun. Mae'r profiad hwn wedi addysgu gwersi gwerthfawr i mi o ran sut i reoli straen ac adnabod fy mhotensial.”*
> *– Rhiant-wirfoddolwr o Saudi Arabia.*